


# Joseff a'r Angel


Mae Joseff, dyweddi Mair, wedi darganfod fod Mair yn mynd i gael babi. Gan feddwl fod Mair wedi pechu (ac nid oedd am godi cywilydd arni), penderfynodd Joseff dorri'r dyweddiad yn dawel bach a mynd ei ffordd ei hun. Wrth iddo feddwl am hyn, aeth angel yr Arglwydd ato mewn breuddwyd a dweud wrtho nad oedd yr hyn oedd wedi digwydd i Mair yn ddrwg nac yn bechod. Drwy'r Ysbryd Glân oedd Mair yn mynd i gael babi. Dywedodd yr angel hefyd y byddai'r babi'n achub ei bobl o'u pechodau a'i enw fyddai Iesu. Wedyn fe wnaeth Joseff a Mair briodi.



**“Roedd wedi bod yn meddwl am hyn pan gafodd freuddwyd: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, “Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyf i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau.” Mathew 1:20-21**



Helpwch Joseff i ddod o hyd i Mair!



# Gwers 3

## Joseff a'r Angel

**Testun y Beibl:** Mathew 1:18-25

**Adnod allweddol:** Mathew 1:20b-21

**Pwrpas:** Bydd y plant yn deall beth ddigwyddodd pan ymddangosodd yr angel i Joseff.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

### GWERS A GWEITHGAREDDAU

#### I. Gwers

Wedi i'r plant orffen y dudalen liwio, bydd yr athro/athrawes yn adrodd stori Joseff a Mair o Mathew 1:18-25

Roedd Joseff, a oedd wedi dyweddio ac am briodi Mair, yn ddyn cyfiawn. Roedd yn dod o deulu'r Brenin Dafydd.

Wedi i Mair gael y newyddion y byddai'n cael mab a fyddai'n Waredwr y byd, fe wnaeth hi dderbyn yr hyn yr oedd Duw eisiau iddi wneud. Byddai llawer yn ei beirniadu ar gam, gan hyd yn oed ei chyhuddo o bechod neu ei chondemnio i farw (oherwydd i'r Iddewon, roedd cael plentyn heb fod yn briod yn bechod y gellid ei gosbi drwy farwolaeth). Pan glywodd Joseff fod Mair yn mynd i gael babi, penderfynodd dorri'r dyweddïad yn dawel bach oherwydd yr oedd yn ddyn da ac roedd yn caru Mair. Tra bo Joseff yn meddwl am hyn i gyd, daeth angel yr Arglwydd ato mewn breuddwyd a dweud wrtho am beidio â gwneud hyn. Oherwydd drwy'r Ysbryd Glân oedd Mair yn mynd i gael babi. Byddai'n cael mab o'r enw Iesu a byddai'n achub ei bobl oddi wrth eu pechodau. Dywedodd yr angel hefyd wrtho y byddai hyn i gyd yn digwydd i gyflawni'r proffwydoliaethau. Felly fe briododd Joseff Mair yn union fel y dywedodd yr angel.

## II. Gweithgareddau

### 1. Adnod allweddol

**a. Darllenwch yr adnod allweddol yn uchel:** "Roedd wedi bod yn meddwl am hyn pan gafodd freuddwyd: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, "Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyt i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau." Mathew 1:20-21

### **b. Eglurwch yr adnod, gan ddefnyddio cwestiynau i helpu'r plant ddod o hyd i'r atebion yn yr adnod:**

- Pwy oedd Joseff? Mab i Dafydd.
- Beth oedd Joseff yn gyndyn o wneud? Cymryd Mair fel gwraig.
- Pam fod ar Joseff ofn cymryd Mair yn wraig? Am ei bod yn mynd i gael babi.
- Beth oedd cenhadaeth Mair? Cael mab.
- Pwy fydd y plentyn hwn? Iesu, y Gwaredwr.
- Beth fydd cenhadaeth y plentyn hwn? Achub ei bobl oddi wrth eu pechodau.

### **c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod allweddol, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau.**

### 2. Cwestiynau allweddol i'w hadolygu:

- Beth yw'r gwahanol enwau ar Waredwr sy'n ymddangos yn yr Efengylau a beth yw eu hystyr?
- Pam wnaeth Duw ddewis gwryf i roi genedigaeth i'r Gwaredwr?
- Oedd Joseff yn ymddiried yn llawn ym Mair?
- Pwy wnaeth ymweld â Joseff a beth a ddywedodd?
- Pa neges a ddaeth yr angel i Joseff?
- Beth wnaeth Joseff wedi iddo ddeffro?

## III. Diweddglo

Yn aml iawn rydym yn beirniadu'r rhai sydd agosaf atom heb wybod y gwirionedd na gwybod beth yw eu cenhadaeth. Credodd Joseff fod Mair wedi pechu, felly roedd eisiau ei gadael yn dawel bach. Mae hyn yn dangos ei fod yn ystyried bod Mair yn euog. Ond siaradodd yr Arglwydd ag ef drwy'r angel. Ydych chi wedi bod yn barod iawn i feirniadu rhywun heb wybod y gwir, fel y gwnaeth Joseff? Pryd bynnag y teimlwch fel cyhuddo rhywun o ddrygioni, meddylwch ddwywaith! Yna gadewch i'r Arglwydd farnu!